## Atodiad A

## Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

**Dechreuodd yr ymgynghoriad 11 Ionawr 2022**
**Daeth yr ymgynghoriad i ben 22 Chwefror 2022**

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- Cafwyd 113 ymateb gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol

**Cyfarfodydd**

Cyfarfu cynrychiolwyr Swyddfa'r Post â'r Aelod o'r Senedd Mabon ab Gwynfor, y Cynghorydd Katie Price a'r Cynghorydd Gethin Glyn Williams ar 27 Ionawr 2022.

**Y prif faterion a godwyd**

- Pellter
- Parcio
- Lle y tu mewn i'r siop
- Gwasanaethau
- Hyfforddiant Staff

**Ymateb i'r materion a godwyd**

**Pellter**

Mae'r adeilad newydd tua 150 metr o'r lleoliad blaenorol. Gydag unrhyw symud, mae'n anorfod y bydd yn haws i rai cwsmeriaid gyrraedd y lleoliad newydd; yn anffodus, bydd eraill yn gorfod teithio ymhellach. O ran cerdded i'r lleoliad newydd, mae yna balmentydd mewn cyflwr da, gydag ymylon isel ar hyd y ffordd o'r safle presennol. Hefyd, mae yna groesfan dynodedig i gerddwyr â goleuadau traffig yn union y tu allan i'r gangen newydd.

**Parcio**

Mae parcio yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y DG.  Mae'r lle sydd ar gael i barcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. Gwnaed adolygiad pellach o barcio a chanfuwyd bod modd parcio am gyfnod cyfyngedig wrth ymyl y ffordd ar hyd Heol yr Orsaf a'r A496. Yn ogystal, mae Maes Parcio Talu ac Arddangos y Jiwbilî o fewn 250 metr ac mae Maes Parcio Talu ac Arddangos Y Smotyn Du o fewn 350 metr i'r gangen newydd. Mae llefydd parcio allfordd i bobl anabl ar gael tua 70 metr o'r gangen newydd, y tu allan i Lyfrgell Abermo.

**Lle y tu mewn i'r siop**

Y tu mewn, mae'r gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i gynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post ochr yn ochr â'r gwasanaeth manwerth. Rydym yn gweithio'n agos a'r gweithredydd newydd a chafodd rhai celfi gosod a ffitiadau eu symud neu eu cymryd oddi yno. Mae hyn yn golygu bod modd mynd i mewn yn ddirwystr i'r adeilad, gan wneud yn siŵr nad oes unrhyw rwystradau wrth y fynedfa ac ar y llwybrau a bod digon o le i gwsmeriaid mewn cadair olwyn i symud o gwmpas yn rhwydd. Bydd staff y siop yn rhoi cymorth ychwanegol os oes angen.

Mae yna un man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop, yn unol â busnes a ddisgwylir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r gangen newydd yn darparu gwasanaethau Swyddfa'r Post yn ystod oriau agor estynedig – sy'n golygu y gall cwsmeriaid ymweld a'r gangen pan mae'n gyfleus iddyn nhw. Dylai'r oriau agor estynedig olygu hefyd y gall mwy o gwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post yn hwyrach yn y dydd, gan leihau'r ciwio ar adegau prysur, fel yn yr haf.

**Oriau agor**

Bydd y gangen newydd yn cynnig yr oriau agor a gyhoeddwyd eisoes, sef Llun – Sul 07:00 – 23:00 o Ddydd Llun 21 Mawrth 2022. I wneud yn siŵr fod digon o staff yn derbyn hyfforddiant eang i ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post yn ystod yr oriau hynny, bydd oriau agor y gangen yn llai o Ddydd Llun i Ddydd Sul, sef 09:00 – 17:00, yn ystod y bythefnos gyntaf.

